*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 2001 (Cy. 304)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Rhagfyr 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 16 o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 17(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Addasu Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998

**2.** Mae adran 46(4) o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(**2**) wedi ei haddasu fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd paragraff (b) hepgorer "and";

(b) ar ddiwedd paragraff (c) mewnosoder—

"; and

(d) the Agricultural Sector (Wales) Act 2014."

(**1**) 2014 dccc 6.

(**2**) 1998 p. 39. Mae adran 46(4)(a) wedi ei diddymu gan adran 72 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a pharagraff 2 o Atodlen 20 iddi. Nid yw'r diddymiad yn cael effaith yng Nghymru eto.

*Rebecca Evans*
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud addasiad canlyniadol i Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 ("Deddf 1998").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 46(4) o Ddeddf 1998 drwy fewnosod cyfeiriad at Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau na ellir erlyn person o dan Ddeddf 1998 a Deddf 2014 am drosedd sy'n codi o'r un ymddygiad.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer y Gorchymyn hwn gan na ragwelir y bydd yn effeithio o gwbl ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol.